'Tir, tir, mi welaf i dir ar y gorwel'

(gweledigaeth / dyhead / amynedd)

Bum can mlynedd yn ôl credai llawer o bobl fod y byd yn fflat. Dim ond ychydig iawn o bobl oedd yn credu fod y byd yn grwn. Un o'r rhain oedd Christopher Columbus. Dywedodd y buasai'n gallu hwylio o amgylch y byd a dod â pherlau a thlysau yn ôl gydag ef o China ac India. Credai'r mwyafrif o'r bobl y byddai'n sicr o syrthio dros yr ymyl! Roedd hyd yn oed y rhai oedd yn credu fod y byd yn grwn yn credu y byddai'n cael cryn anhawster i hwylio ar i fyny ar ei ffordd yn ôl.

Ar 3 Awst 1492, cychwynnodd Columbus ar ei daith o Sbaen gan gyfeirio'r cwch tua'r gorllewin. Yn ei feddiant roedd llythyr oddi wrth frenin a brenhines Sbaen at Ymerawdwr China. Doedd neb erioed wedi meddwl hwylio ar draws cefnfor yr Iwerydd. Yn wir doedd neb yn gwybod fod cyfandir mawr America yn gorwedd ymhell, bell dros y môr.

Bu'r llongau, tair ohonyn nhw, sef *Nina*, *Punta* a *Santa Maria* yn hwylio am dri deg o ddiwrnodau. Doedd dim golwg o dir yn unman. Erbyn hyn roedd y morwyr yn anniddig iawn.

"Does dim golwg o dir yn unman," meddai un morwr wrth Columbus.

"Gwell fyddai i ni droi'n ôl, neu mi fyddwn ni'n mynd a mynd am byth," meddai un arall.

"Rhowch dri diwrnod arall i mi," meddai Columbus. "Rydw i'n sicr y byddwn ni'n dod o hyd i dir cyn bo hir.

Dal i hwylio oedd y llongau. Un bore gwaeddodd un o'r morwyr,

"Edrychwch, mae yna frigau a changhennau yn nofio ar wyneb y dŵr."

Ac meddai un arall, "Mae adar yn hedfan uwchben. Mae'n rhaid bod tir yn agos."

Ymlaen yn llawn hyder yr aeth Columbus a'i forwyr. Ond doedd dim golwg o dir yn unman. Dechreuodd y morwyr droi'n gas unwaith eto.

"Gewch chi weld, dydyn ni ddim ymhell o dir," meddai Columbus.

Ymhen deuddydd daeth bloedd, "Tir! tir! mi wela i dir ar y gorwel." Daeth bonllefau o gymeradwyaeth o bob un o'r tair llong.

Doedd neb yn fwy balch na Columbus.

Ar 12 Hydref 1492 glaniodd Christopher Columbus gan gario baner a cherdded ar dir newydd. Penliniodd a diolchodd i Dduw am ei arwain yn ddiogel i dir. Galwodd yr ynys yn San Salvador. Pan ddechreuodd y morwyr ffeindio'u ffordd o gwmpas yr ynys daethant ar draws pobl. Roedd y morwyr wedi rhyfeddu at y bobl yn rhoi dail yn eu ceg a thanio'r dail. Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw weld tybaco! Crwydrodd Columbus a'i griw o gwmpas yr ynysoedd ond ymhen dim roedd yn bryd dychwelyd i Sbaen. Aeth â chwech o'r brodorion yn ôl gydag ef ynghyd ag adar egsotig o'r ynysoedd. Cafodd groeso mawr ar ôl cyrraedd yn ôl.

Penderfynodd Brenin Sbaen wneud gwledd fawr i Columbus. Doedd rhai o uchelwyr llys y brenin ddim yn hapus o gwbl. Llongwr cyffredin yn cael gwledda efo'r brenin!

"Gall unrhyw un hwylio ar draws y moroedd," meddai un ohonyn nhw. "Beth sydd mor arbennig am Columbus a'i griw?" gofynnodd un arall o'r uchelwyr.

Pan glywodd Columbus fod rhai o'r uchelwyr yn cwyno, gofynnodd i un o weision y brenin ddod gyda wyau wedi'u berwi'n galed iddo.

"Fedrwch chi wneud i'r wyau hyn sefyll i fyny?" gofynnodd Columbus. Bu'r uchelwyr wrthi am hydoedd yn ceisio gwneud i'r wyau sefyll i fyny.

Meddai'r Brenin, "Dangos di i ni sut i wneud?"

Trawodd Columbus yr wy'n galed ar y bwrdd a safodd i fyny.

"Mi fedr unrhyw ffŵl wneud fel'na," meddai'r uchelwyr.

"O medr," meddai Columbus, "ond y fi oedd y cyntaf i feddwl am y peth."

Adnod: "...felly byddwch yn gall fel seirff ac yn ddiniwed fel colomennod." Mathew 10:16

Gweddi:
Diolch i ti, O Dduw, am bobl sydd wedi darganfod ac sydd yn dal i ddarganfod o'r newydd. Amen.

Trafod:

- Beth yn union oedd ystyr gwneud i'r wyau sefyll i fyny?
- Chwiliwch am fwy o hanes Christopher Columbus.